# Pethau i'w hystyried wrth ddewis gweithgaredd grŵp

National Autistic Society Cymru

| Lleoliad | Gweithgaredd | Sut gall aelodau gymryd rhan | Pethau i'w hystyried |
|---|---|---|---|
| Ar-lein neu wyneb yn wyneb | Clwb llyfrau | Mae pobl yn ddarllen neu wrando ar yr un llyfr ac yn ei drafod. Neu mae pobl yn cymryd eu tro i siarad am eu hoff lyfrau a'u hargymell. | Sefydlwch reolau sylfaenol clir, e.e. cymryd tro/am faint o amser y caniateir i bob aelod siarad. |
| Ar-lein neu wyneb yn wyneb | Côr | Ymarferion a chwisiau cerddorol ar-lein. | Mae gan hyn ystyriaethau ar gyfer y rheini sy'n sensitif yn glywedol. |
| Wyneb yn wyneb | Grŵp sinema | Gwyliwch ffilm sy'n addas ar gyfer awtistiaeth. | Cyllideb, angen cael mynediad i leoliad lleol. |
| Wyneb yn wyneb | Clwb dringo | Mynd i wal ddringo gyda'ch gilydd. | Angen cael mynediad i leoliad lleol. Efallai y bydd gan aelodau alluoedd corfforol/cydsymudiad gwahanol. |
| Ar-lein neu wyneb yn wyneb | Dosbarthiadau dawnsio | Sgrinio dosbarthiadau dawnsio ar-lein am ddim fel 305. | Efallai y bydd gan aelodau alluoedd corfforol/cydsymudiad gwahanol. |
| Ar-lein neu wyneb yn wyneb | Grwpiau gemau | Gemau aml-chwaraewr ar-lein neu gemau bwrdd wyneb yn wyneb. | Sefydlu rheolau sylfaenol clir, e.e. cymryd tro, cod ymddygiad. |

| Lleoliad | Gweithgaredd | Sut gall aelodau gymryd rhan | Pethau i'w hystyried |
|---|---|---|---|
| Ar-lein | Gogglebox | Bydd y grŵp yn gwylio sioe deledu gyda'i gilydd ac yn trafod eu barn am y sioe. Un wythnos gallech chi fod yn gwylio dosbarth celf, coginio'r wythnos ganlynol, a rhaglen ddogfen hanes yr wythnos wedyn... | Sefydlwch reolau sylfaenol clir, e.e. cymryd eich tro i ddewis sioe. |
| Ar-lein neu wyneb yn wyneb | Grwpiau Cefnogi Diagnosis Hwyr | Lle i bobl awtistig sydd wedi cael diagnosis yn ddiweddar gael sgwrs a phaned. Gall aelodau rannu eu hawgrymiadau ar oresgyn rhwystrau, e.e. sut i ateb ffôn neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. | Nid yw'r grŵp hwn yn wasanaeth ôl-ddiagnostig, ac mae angen egluro hyn i bobl sy'n dymuno ymuno â'r grŵp. |
| Ar-lein neu wyneb yn wyneb | Grŵp LBGTQ+ | Lle sy'n croesawu aelodau LGBTQ+ i rannu newyddion, i wrando ar siaradwyr, ac i gymryd rhan mewn digwyddiadau a heriau. | Mynediad i le tawel. Sefydlu rheolau sylfaenol clir, e.e. trin pob aelod â pharch. |
| Ar-lein neu wyneb yn wyneb | Clwb Lego | Gall y rhai sy'n bresennol rannu eu modelau Lego eu hunain â'r grŵp, neu weithio ar fodelau tebyg. | Cyllideb. |

| Lleoliad | Gweithgaredd | Sut gall aelodau gymryd rhan | Pethau i'w hystyried |
|---|---|---|---|
| Ar-lein neu wyneb yn wyneb | Grŵp sgiliau bywyd | Gall mynychwyr rannu’r sgiliau yr hoffent eu dysgu, a dysgu gydag aelodau'r grŵp sy'n gallu gwneud y sgiliau hyn yn barod. Er enghraifft, coginio, garddio, cymdeithasu, paratoi ar gyfer cyfweliadau swydd, ysgrifennu, neu ffotograffiaeth. | Efallai y bydd angen offer/cyfleusterau addas i ddysgu’r sgiliau, e.e. i ddilyn tiwtorialau pobi ar-lein. |
| Ar-lein neu wyneb yn wyneb | Grŵp cerddoriaeth | Gallai hyn olygu gwylio gig ar-lein neu fynd i gig neu ddysgu sgiliau cerddorol. | Cyllideb, sensitifrwydd clywedol, gwahanol alluoedd a phrofiadau cerddorol. |
| Ar-lein | Grŵp cwis | Mae pawb yn dod â 5 cwestiwn er mwyn rhannu rôl y cwis feistr ac er mwyn hoelio sylw pawb. | Mae cwestiynau amlddewis yn gweithio’n dda. Gofynnwch i’r aelodau greu cwestiynau ar sail eu diddordebau arbennig. |
| Ar-lein neu wyneb yn wyneb | Grŵp gweithdy caffi trwsio | Mae’r rhai sy’n bresennol yn cymryd eu tro i ddewis eitem o ddiddordeb ac yn egluro pam mae’n torri/sut mae ei thrwsio. | Gwnewch yn siŵr nad oes neb yn dewis datgymalu unrhyw beth, yn enwedig eitemau hanfodol neu beryglus. |
| Wyneb yn wyneb | Clwb bowlio deg | Chwarae gemau a chymdeithasu. | Angen cael mynediad i leoliad lleol. Gwahanol alluoedd corfforol/cydlynu. |

| Lleoliad | Gweithgaredd | Sut gall aelodau gymryd rhan | Pethau i'w hystyried |
|---|---|---|---|
| Ar-lein | Grŵp rhith-daith | Ymweld ag amgueddfeydd, dinasoedd, y pyramidiau etc. gyda'ch gilydd ar-lein. | Mae angen i aelodau barchu dewisiadau ei gilydd. |
| Wyneb yn wyneb | Grwpiau cerdded | Mae aelodau'n mynd ar lwybrau cerdded lleol. | Gwahanol sensitifrwydd corfforol a synhwyraidd. |
| Ar-lein neu wyneb yn wyneb | Clwb Warhammer | Paentio ffigurau gyda'ch gilydd neu chwarae gêm yn y lleoliad. | Cyllideb. |
| Ar-lein neu wyneb yn wyneb | Grŵp menywod | Llwyfan i fenywod awtistig rannu eu heriau a'u cryfderau. | Mynediad i le tawel. Sefydlu rheolau sylfaenol clir, e.e. parch. |